

Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

12 Mehefin 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd K Doolin (Cadeirydd)
Y Cynghorydd P Harries, Mrs J James, y Cynghorydd PJ
Morgan, Dr R Plummer a'r Cynghorydd S Yelland.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd ML Evans yn ystod y drafodaeth ar
Adroddiad 05/19 Castell Henllys]

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.30am)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth y Dr
M Havard a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth i'w
cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a
gynhaliwyd ar 27 Mawrth.

4. Castell Henllys

Cafodd yr Aelodau ddiweddariad am y gwaith a oedd ar y gweill gan
Delun Gibby, Rheolwr newydd Gwasanaethau Ymwelwyr Castell Henllys.

Ar y pwynt hwn, cyrhaeddodd y Cynghorydd M Evans.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr wrth yr Aelodau fod
Castell Henllys wedi dod yn aelod o EXARC (Cyfnewid Ymchwil a
Chyfathrebu Archaeolegol) yn ddiweddar a oedd yn cynnig cyfleoedd ar
gyfer gefeillio gyda safleoedd a hysbysebion eraill yn hyrwyddo hanes
Castell Henllys. Dywedodd y Swyddog fod y rhan fwyaf o ymwelwyr â
Chymru yn teithio ar hyd coridor yr M4 at fannau poblogaidd fel Dinbych-
y-pysgod / Saundersfoot ac roedd felly'n edrych i dargedu trefi eraill fel
Aberteifi, Abergwaun a'r ardaloedd cyfagos yn ogystal â chysylltu â
Mentro i Sir Benfro (VIP Wales) a llongau mordaith i gynyddu nifer yr
ymwelwyr.

Barnwyd bod arwyddion annigonol yn broblem gan fod y safle oddi ar
gefnffordd gyda dim ond dau arwydd brown wedi'u codi. Gwnaed
ymholiadau am arwyddion ychwanegol gydag Asiantaeth Cefnffyrdd



Cymru ond roedd y pris a ddyfynnwyd ganddynt yn rhy ddrud. Roedd y Rhaglen Ysgolion wedi cael adborth da o gwisiau a anfonwyd allan, gyda disgyblion yn cofio eu hymweliad hyd at flwyddyn yn ddiweddarach. Penderfynwyd y byddai grwpiau ysgol yn cael cynnig taleb disgownt o 25% i annog y plant i ddod yn ôl gyda'u teuluoedd yn ystod gwyliau'r haf. Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y cap ar nifer y disgyblion sy'n mynychu'r safle gan eu bod yn teimlo y gallai hyn effeithio ar gyllidebau Ysgolion o ran teithio ar fysiau nad oeddent yn llawn.

Dywedodd y swyddog wrth yr Aelodau, o blith y 12 Aelod Staff, bod 8 yn siarad Cymraeg yn rhugl ac roedd hi'n awyddus iawn i annog dysgwyr Cymraeg i ymweld ac ymarfer yn nhirwedd Castell Henllys. Ailadeiladwyd y tŷ coginio ac roedd eisoes ar waith, a byddai tŷ crwn llai yn cael ei ailadeiladu gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn dechrau gwyliau'r haf. Y flaenoriaeth gyffredinol oedd datblygu'r safle fel atyniad twristiaeth a lleol blaenllaw a oedd yn addysgu'r cyhoedd am gynhanes, byw'n gynaliadwy, bioamrywiaeth, y Gymraeg a diwylliant Cymru.

Roedd yr Aelodau'n cydnabod, er bod angen i Gastell Henllys fantoli'r gyllideb a dod yn fwy cynaliadwy, ei fod yn rhan bwysig o'r Parc Cenedlaethol a'i hanes. Llongyfarchwyd Delun gan yr Aelodau am safon ei hadroddiad.

NODWYD.

5. Adroddiad am Berfformiad am y Cyfnod yn Diweddu 31 Mawrth 2019

Roedd yr adroddiad a gyflwynodd y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2018/19 a'i saith amcan llesiant, gydag adran ychwaegol yn darparu gwybodaeth gyffredinol am lywodraethiant.

Yn yr adroddiad roedd darlun o'r perfformiad am y flwyddyn ariannol lawn – mis Ebrill i fis Mawrth 2018/19 – ac roedd yn cynnwys data chwarter 4 (Ionawr - Mawrth) ar gyfer mwyafrif y setiau data. Roedd rhai camau gweithredu yn parhau i fod yn oren ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac roeddynt yn ymwneud â meysydd lle'r oedd angen gwaith pellach i symud ymlaen â gweithgareddau neu waith fel rhan o brosiect tymor hwy.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod yr ôl-groniad o achosion gorfodi wedi'u clirio gydag ychydig o eithriadau. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau fod adroddiad ar 'Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru' wedi'i gyhoeddi a fyddai'n cael ei ddosbarthu iddynt maes o law. Gofynnodd un Aelod a allai awdur yr adroddiad ddod i siarad â'r Aelodau am y cynnwys. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai'r eitem honno yn cael ei chynnwys ar Agenda yn y dyfodol. Roedd yr aelodau'n



falch bod 95 o dai fforddiadwy wedi'u cymeradwyo ac roeddynt yn gobeithio y gellid gwella'r ffigur hwn y flwyddyn nesaf.

NODWYD

6. Y Gofrestr Risg

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Gofrestr Risg ddiweddaraf.

Yn absenoldeb y Rheolwr Cyllid, aweiniwyd yr Aelodau drwy'r adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at eitem 2 (risg cyllid gan Lywodraeth Cymru). Roedd y gostyngiad posibl yn y cyllid sylfaenol yn dal i gael ei ystyried er ei fod yn annhebygol o gael ei gyflwyno eleni. Y gobaith oedd y byddai swydd Rheolwr Adnoddau Dynol yn cael ei hysbysebu yn yr ychydig wythnosau nesaf. O ran eitem 20 (risg o fethiant TG mawr), teimlai un Aelod fod angen cadarnhau bod y gallu i storio wrth gefn ac adfer yn llwyddiannus wedi cael ei brofi'n llawn ac y byddai trafodaeth gyda'r Rheolwr TG newydd yn ddefnyddiol. Holodd yr Aelodau am absenoldebau staff a swyddi gwag. Nododd y Prif Weithredwr fod y rhain wedi gwella gyda phenodiad y rheolwyr newydd yng Nghastell Henllys ac Oriol y Parc. Roedd dau neu dri o faterion iechyd staff ond roedd y bobl dan sylw yn cael eu cefnogi gyda'u problemau.

NODWYD.

